PRIFFYRDD, CYMRU

200- Rhif

DEDDF PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) (GWELLIANT PENLOYN I DAN LAN, FFYRDD YMYL) 200-

Wedi'i wneud	*200-*
Yn dod i rym	*200-*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980**(1)** ('Deddf 1980') a phob pŵer galluogi arall**(2)** :

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi, mewn perthynas â'r gefnffordd i'r gogledd o Lanrwst o Benloyn i Dan Lan ym Mwrdeistref Sirol Conwy:-

a. i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
b. i gau priffyrdd;
c. i adeiladu priffyrdd newydd;
ch. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd; ac
d. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. (1) Dangosir y gwaith a awdurdodir gan Erthygl 1 ar yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac fe'i dynodir ar y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn yn y dull canlynol:-

a. dangosir y rhannau o briffordd sydd i'w gwella â llinellau rhesog;

b. caiff darnau a rhannau o briffordd sydd i'w cau eu disgrifio (gan nodi mai amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog;

---

(1) 1980 p.66

(2) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llwodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru

c. dangosir priffyrdd newydd fydd yn cael eu hadeiladu drwy ddefnyddio llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlen, sy'n cael eu rhoi i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fydd priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen, rhoddir y llythyren gyfeirnod briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno. Caiff llwybrau priffyrdd newydd fydd yn cael eu hadeiladu eu dangos â dotwaith a chaiff llinell ganol pob priffordd newydd ei dangos â llinell ddu heb ei thorri;

ch. disgrifir darnau sydd i'w cau o fynedfeydd preifat i fangreoedd (bras amcan yn unig yw pob pellter), a rhoddir iddynt y cyfeirnodau a ddangosir ar y plan a adneuwyd ac a ddangosir â bandiau du solet; a

d. caiff mynedfeydd newydd sydd i'w darparu eu dangos yn yr Atodlen drwy ddefnyddio cyfeirnodau a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adneuwyd, a phan fo mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat sy'n cael ei disgrifio yn yr Atodlen, rhoddir ei gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd preifat newydd â llinellau lletraws.

(2) Mae'r plan a adneuwyd yn nodi safle'r gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig.

(3) Pan fo rhan o briffordd sydd i gael ei chau yn cydfynd â llwybr gwaith awdurdodedig sy'n briffordd newydd neu'n fynedfa newydd neu'n llwybr cefnffordd newydd ni chaiff y rhan honno ei dangos â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd.

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

(1) parthed pob darn neu ran o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei gau, fod yna lwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y bydd un yn cael ei ddarparu, cyn y bydd y darn hwnnw o'r gefnffordd yn cael ei gau, a

(2) parthed pob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, fod yna fynedfa arall resymol o hwylus ar gael i'r fangre berthnasol neu y bydd un yn cael ei darparu cyn i'r fynedfa breifat gael ei chau neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa newydd i'r fangre berthnasol.

4. Mae pob priffordd newydd i'w throsglwyddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y modd a nodir yn yr Atodlen, o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu'r Cyngor ei bod wedi ei chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

5. Yn union ar ôl mae trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad ar ei chyfer yn yr Atodlen gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno caiff y briffordd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

6. Pan fo darpariaeth wedi'i gwneud yn y Gorchymyn hwn:

a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu

b. i alluogi Gweinidogion Cymru i altro priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Adran 268(3) o Ddeddf 1980) bydd unrhyw eiddo ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru , neu a dducpwyd ganddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd, neu ag altro priffordd, yn ôl y digwydd, yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ddyddiad trosglwyddo'r briffordd honno, neu pan gwblheir y gwaith neu'r altrad, neu, os yw'n ddiweddarach, ar y dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn caffael y tir mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu mewn cysylltiad ag altro priffordd.

7. Os, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, y bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd, neu ar ei thraws, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd gan yr ymgymerwyr hynny yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt yn union cyn cau'r briffordd.

8. Yn y Gorchymyn hwn:

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl y digwydd;

(2) (i) ystyr 'ffordd ddiddosbarth' ('*unclassified road'*) yw priffordd nad yw'n ffordd ddosbarthiadol nac yn llwybr troed na llwybr beiciau ac sydd heb ddosbarthiad ffurfiol;

(ii) ystyr 'y plan a adneuwyd' ('*the deposited plan*')yw'r plan a geir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 NAFW34 ac sydd wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr 'A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200- a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(iii) mae 'gwella' ('*improvement*') mewn perthynas â phriffordd, yn cynnwys codi, gostwng neu altro'r briffordd honno mewn modd arall a bydd 'gwella' yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

(iv) ystyr 'priffordd newydd' ('*new highway*') yw priffordd yr awdurdodwyd ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn a bydd 'priffyrdd newydd' yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

(v) ystyr 'y gefnffordd' ('*the trunk road*') yw Cyffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

(vi) ystyr 'y gefnffordd newydd' ('*the new trunk road*') yw'r gefnffordd sydd i gael ei hadeiladu yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr 470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan 200-.

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 200- a'i enw fydd'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200-'

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 200_

S C SHOULER
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Lywodraeth Cynulliad Cymru